# Is-ddeddfwriaeth sydd ag Adroddiadau Clir
# 28 Ebrill 2020

## SL(5)536 – Deddf Erthylu 1967- Cymeradwyo Man Triniaeth ar gyfer Terfynu Beichiogrwydd (Cymru) 2020

### Cefndir a Diben

Gwneir y Gymeradwyaeth hon gan Weinidogion Cymru o dan bwerau a roddir iddynt gan Ddeddf Erthyliad 1967. Mae'r Gymeradwyaeth yn darparu:

- bod cartref ymarferydd meddygol cofrestredig yn cael ei gymeradwyo fel dosbarthiad o le i roi triniaeth ar gyfer terfynu beichiogrwydd at ddibenion rhagnodi dim ond y meddyginiaethau a elwir yn Mifepristone a Misoprostol;
- mae cartref menyw feichiog sy'n cael triniaeth at ddibenion terfynu ei beichiogrwydd yn cael ei gymeradwyo fel dosbarthiad o le lle gellir cynnal y driniaeth ar gyfer terfynu beichiogrwydd.

Rhaid cynnal y driniaeth yn y modd a ganlyn:

- mae'r fenyw feichiog wedi— (i) mynychu lle cymeradwy (h.y. ysbyty yng Nghymru, fel yr awdurdodwyd o dan adran 1(3) o Ddeddf Erthyliad 1967, neu le yng Nghymru a gymeradwyir o dan yr adran honno); (ii) wedi ymgynghori â lle cymeradwy trwy gyswllt fideo, cynhadledd ffôn neu ddulliau electronig eraill, neu (iii) ymgynghori ag ymarferydd meddygol cofrestredig trwy gyswllt fideo, cynhadledd ffôn neu ddulliau electronig eraill, a
- rhagnodir Mifepristone a Misoprostol i'r fenyw feichiog i'w chymryd at ddibenion terfynu ei beichiogrwydd ac nid yw'r beichiogrwydd wedi bod yn fwy na naw wythnos a chwe diwrnod ar yr adeg y cymerir y Mifepristone.

Bydd y Gymeradwyaeth yn lleihau'r angen am gyswllt cymdeithasol ac felly'n lleihau'r risg ddiangen o ddod i gysylltiad â'r coronafeirws.

### Gweithdrefn

Dim gweithdrefn.

**Rhiant-Ddeddf:** Deddf Erthylu 1967
**Fe'u gwnaed ar:** 01 Ebrill 2020